

Ymgynghoriad Ffurfiol ar sefydlu
Ffederasiwn Ysgol yn ymgorffori
Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton

**3 Mehefin 2019 -
14 Gorffennaf 2019**



If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact Newport City Council on 01633 656656 or by emailing school.reorg@newport.gov.uk

English

Os hoffech yr wybodaeth hon ar wirlyw llurf arall er enghraifft braille neu brint bras, neu os hoffech help gan ddiheoglydd iaith arall, cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwch school.reorg@newport.gov.uk

Welsh

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如凸字及大字體印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱 school.reorg@newport.gov.uk

Cantonese

Pokud byste chtěli tyto informace v libovolném jiném formátu, například braillovém písmu nebo velkém tiskovém textu nebo pomoci s tlumočením v jiném jazyce, kontaktujte Newport City Council na čísle 01633 656656 nebo e-mailem school.reorg@newport.gov.uk

Czech

اگر شما این اطلاعات را در فرمت دیگری می خواهید مثلاً بویل (الفبا نلینار) یا چاپ بزرگ یا کمک به تفسیر در زبان دیگر، لطفاً با شورای شهر Newport City Council school.reorg@newport.gov.uk یا در این آدرس ایمیل 01633 656656 تماس بگیرید.

Farsi

Ha szeretné ezt az információt más módon formátumban, például Braille-írással vagy nagybetűvel nyomtatottan vagy szeretne fordítást különböző nyelvek akkor leggen szives kapcsolatba lépni a Newporti Tanácssal a 01633 656656 telefonszámon vagy emailezen a school.reorg@newport.gov.uk

Hungarian

Jei norite gauti aukščiau pateiktą informaciją kitais formatais, pvz., "Brailio raštu" ir didesiu šriftu spausdinimu, arba jei turite žodinių vertimų, susisiekiote su Niuporto miesto vyriausybe. Tel: 01633 656656. Elektroninis paštas: school.reorg@newport.gov.uk

Lithuanian

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如盲文及大字体印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱：school.reorg@newport.gov.uk

Mandarin

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'em czy dużym drukiem, lub pomoc przy tłumaczeniu w innym języku, prosimy o kontakt z Urzędem Miasta Newport na 01633 656656 lub wysyłając maila na school.reorg@newport.gov.uk

Polish

Se você quiser essa informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou impressão em letra grande, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, entre em contato com a Câmara Municipal de Newport através do número 01633 656656 ou enviando um email para school.reorg@newport.gov.uk

Portuguese

Dacă doriți accesați informație în alt format, de exemplu Braille sau în format mare, sau ajutor cu interpretarea în alta limbă, vă rugăm să contactați Newport City Council la numărul de telefon : 01633656656 sau prin e-mail-ul school.reorg@newport.gov.uk

Romanian

Если вы хотите получить вышеуказанную информацию в другом формате, таком как шрифт Брайля и большой шрифт, или если у вас есть необходимость в устном переводе, обратитесь в управление города Ньюпорт. Тел: 01633 656656 Электронная почта : school.reorg@newport.gov.uk

Russian

V prípade, že potrebujete tieto informácie v inom formáte, ako napríklad Braillovo písmo alebo veľkí tlač alebo potrebujete pomoc s prekladom alebo tlmočením do iného jazyka, prosíme kontaktujte Newport City Council na telefónnom čísle 01633 656656 alebo mailom na school.reorg@newport.gov.uk

Slovak

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, por favor póngase en contacto con el Ayuntamiento de Newport al 01633 656656 o por correo electrónico a school.reorg@newport.gov.uk

Spanish

اگر آپ یہ معلومات کسی دوسری شکل میں حاصل کرنا پسند کریں گے مثلاً بویل کے طور پر، یا (الفبا اشخاص کے لئے) یا بڑے پرنٹ میں یا دوسری سے اس تفسیر پر رابطہ کریں Newport City Council زبان میں ترجمے کے لئے تو تو اسے میری ہی ٹیلی فون نمبر کوئیٹل school.reorg@newport.gov.uk یا اس پتہ پر ای میل کریں 01633 656656

Urdu

Gellir trefnu i gael yr wybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01633 656656 i drefnu.



Tabl cynnwys

1 Rhagair	3
2 Y Cynnig	4
3 Cefndir	4
4 Ffederasiwn – Rheoliadau ac Egwyddorion	6
5 Y Broses Ymgynghori a'r Amserlen	7
6 Trefniadau Derbyn	8
7 Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu	8
8 Manteision a Heriau	9
9 Cwestiynau Cyffredin	10
10 Profforma Ymateb i Ymgynghoriad	12



I Rhagair

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi rhwng dwy a chwech ysgol i gydweithio mewn proses strwythuredig ffurfiol drwy rannu trefniadau llywodraethu a bod ag un corff llywodraethu fydd yn gwneud penderfyniadau er budd holl ysgol, staff a disgyblion y ffederasiwn hwnnw.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton wedi cwrdd â'r Awdurdod Lleol yn unigol a gyda'i gilydd ac wedi cadarnhau eu bwriad i hyrwyddo ffederasiwn ffurfiol rhwng y ddwy ysgol.

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gynnal eu hunaniaethau unigol o ran enw, diwylliant ac ethos, ac yn parhau i reoli eu cyllidebau unigol eu hunain. Y cwbl y mae'r trefniant hwn yn ei olygu yw y caiff un corff llywodraethu ei bennu i lywodraethu'r ddwy ysgol. Mae'r ddau gorff llywodraethu wedi gweithio gyda'i gilydd ers mis Medi 2016, ac ers hynny mae'r ddwy ysgol wedi'u rheoli gan un Pennaeth Gweithredol. Mae'r trefniant hwn wedi effeithio'n gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae bod ag arweinwyr effeithiol yn ei ysgolion yn hanfodol i hyn.

Felly mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r achos dros newid arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton, ac mae wedi'i pharatoi ar y cyd gan y ddau gorff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol. Prif bwrpas y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i randdeiliad dynodedig a cheisio eu barn. Dylai'r ddogfen roi gwybodaeth ddigonol i'ch galluogi chi i wneud penderfyniad call ynghylch a ydych yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Mae profforma ymateb i ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn y ddogfen ac mae modd ei ddychwelyd i un ai Ysgol Gynradd Eveswell, Ysgol Gynradd Somerton neu'r Ganolfan Ddinesig.

Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno ar y cyd rhwng y ddau gorff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol. Edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

John Routley
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Eveswell

Alan Speight
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Somerton

Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd



2 Y Cynnig

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton (y cyrff llywodraethu), yn ogystal â Chyngor Dinas Casnewydd (yr ALI), yn cynnig defnyddio'r pwerau a roddir iddynt dan Reoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i bennu Partneriaeth Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton (y Ffederasiwn).

Mae'r term 'ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion ynghlwm yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol gan rannu'r trefniadau llywodraethiant dan un corff llywodraethu. Bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu dirymu a'u disodli gan gorff llywodraethu newydd gyda goruchwyliaeth strategol o'r ddwy ysgol.

Mae'r ddwy ysgol wedi gweithio ar y cyd ers mis Medi 2016 ac wedi rhannu un Pennaeth Gweithredol ers hynny. Mae'r cyrff llywodraethu wedi ymgynghori â'r ALI ac mae bob parti'n cefnogi'r cynnig.

Nod y Ffederasiwn yw i'r ddwy ysgol weithio mewn partneriaeth i:

- ddatblygu'r arfer rhagorol a rennir sy'n gwarantu profiadau ardderchog a mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a staff, a
- datblygu'r nodau cyffredin a dulliau dysgu ac addysgu adfyfyriol fydd yn sicrhau bod y ddwy gymuned yn elwa ar addysgu o safon.

Bydd hyn yn sicrhau deilliannau cadarnhaol sylweddol a safonau gwell i gymunedau'r ddwy ysgol.

Enw arfaethedig y Ffederasiwn yw 'Partneriaeth Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton'. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd y ffederasiwn yn dechrau ar 1 Ionawr 2020.

3 Cefndir

Mae'r ddwy ysgol wedi gweithio ar y cyd ers bron tair blynedd ac maent wedi rhannu Pennaeth Gweithredol ers mis Medi 2016. Mae'r trefniant hwn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Maent yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg 3-11 oed. Mae'r nodweddion canlynol yn berthnasol i'r ddwy ysgol ym mis Ionawr 2019:

Nodwedd	Ysgol Gynradd Eveswell	Ysgol Gynradd Somerton
Capasiti (heblaw am Meithrin)	420	203
Nifer Derbyn	60	29
Disgyblion ar y gofrestr (heblaw am Meithrin)	419	168
Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) – cyfartaledd 3 blynedd	10%	45%



Nodwedd	Ysgol Gynradd Eveswell	Ysgol Gynradd Somerton
Targed Presenoldeb	95.8%	94.3%
Disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn ystod Cyfnod Allweddol 2	95%	100%
Disgyblion yn cyflawni'r amcan disgwyliedig yn ystod y Cyfnod Sylfaen	97%	84%
Categori Cymorth	Gwyrdd	Melyn

Mae Ysgol Gynradd Eveswell wedi bod mewn categori cymorth “gwyrdd” ers i'r categorïau gael eu cyflwyno gyntaf. Golyga hyn ei bod hi'n ysgol effeithiol tu hwnt sy'n cael ei rhedeg yn dda, gydag arweinyddiaeth gref ac amcanion gwella clir.

Mae Ysgol Gynradd Somerton wedi gwella o fod yn “ambr” i “felyn” dan y trefniadau cydweithredol presennol. Dangosa hyn bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda ac eisoes wedi cefnogi gwelliant ysgol sylweddol, y mae disgwyl iddo barhau.

Drwy fynd i mewn i ffederasiwn ffurfiol, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gydweithio dan arweinyddiaeth a rennir i ddefnyddio eu cryfderau i wella safonau ledled y ffederasiwn a mynd ar ôl meysydd i'w gwella gyda'i gilydd. Drwy ffedereiddio dan un corff llywodraethu, gellid gwella ymhellach yr hinsawdd o ymddiriedaeth, gonestrwydd a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli.

Yn ddaearyddol, lleolir y ddwy ysgol 0.7 milltir i ffwrdd o'i gilydd. Fodd bynnag, maent wedi'u lleoli mewn clystyrau gwahanol, gydag Ysgol Gynradd Eveswell yn rhan o glwstwr Llanwern, ac Ysgol Gynradd Somerton yn rhan o glwstwr Llyswry.

Dechreuodd y trefniant cydweithredol presennol ym mis Medi 2016, pan gafodd Pennaeth profiadol a hirsefydlog Ysgol Gynradd Eveswell ei phenodi'n Bennaeth Gweithredol Ysgol Gynradd Somerton, ar sail dros dro am dri mis i ddechrau tan mis Awst 2019. Fodd bynnag, mae llwyddiant y trefniant wedi arwain ato'n cael ei ehangu nes i ffederasiwn ffurfiol gael ei bennu.

Mae'r ddwy ysgol yn elwa ar Ddirprwy Bennaeth llawn amser, sydd ag ymrwymiad dosbarth is i gefnogi'r Pennaeth pan fo'n gweithio yn yr ysgol arall.

Mae Uwch Dîm Rheoli a rennir, yn cynnwys y Pennaeth Gweithredol a'r Dirprwy Bennaethiaid, yn goruchwyllo'r cynllunio strategol. Mae hyn yn sicrhau bod systemau gweithredol yn gadarn ac yn addas ar gyfer anghenion y ddwy ysgol unigol.

Yn bennaf, bydd dyddiau hyfforddiant staff yn cael eu rhannu ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol i holl aelodau staff y ddwy ysgol ac yn lleihau'r gost gyffredinol i'r ysgolion unigol. Mae cyfarfodydd staff a monitro ar y cyd, a goruchwyllo triad a gweithgareddau cymedrol i'n cefnogi ymhellach y gwaith o godi safonau i bob disgybl ledled y ddwy ysgol. Bu hefyd gyfleoedd i staff, os dymunent, symud ar draws y ddau safle i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu sawl enghraifft o 'arfer gorau' sydd wedi'u datblygu ac yna'u rhannu ledled y ddwy ysgol, sydd wedi galluogi'r ysgolion i gyflawni canlyniadau gwell i ddysgwyr.



4 Rheoliadau ac Egwyddorion Ffederasiwn

Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithrediad rhwng pob rhan o'r system addysg i wella deilliannau. Mae ffederasiwn ysgol yn ffordd fwy ffurfiol o ehangu cydweithrediad a hyrwyddo perthnasau gwaith agosach, a dyna yw'r brif fenter er mwyn cyflawni gweithio partneriaeth ffurfiol ymysg ysgolion i wella perfformiad a chulhau'r bwlch cyflawniad i ddisgyblion difreintiedig.

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i gydweithio mewn proses strwythuredig ffurfiol drwy rannu corff llywodraethu fydd yn gwneud penderfyniadau er budd ysgolion, staff a disgyblion y ffederasiwn hwnnw.

I fod yn llwyddiannus, mae angen i ffederasiwn fod yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio fel grŵp o ysgolion a pharodrwydd i wneud pethau'n wahanol er budd ychwanegol bob disgybl, eu llesiant a'u cyflawniadau.

Un o fanteision ffedereiddio, yw y bydd ysgolion y ffederasiwn yn parhau yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaethau unigol. Fodd bynnag, bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu dirymu a'u disodli gan un corff llywodraethu newydd fydd yn goruchwyllo a bydd â chyfrifoldeb cyfartal dros waith bob ysgol yn y ffederasiwn.

Mae aelodaeth corff llywodraethu ffederasiwn ysgolion bron yn union yr un peth ag aelodaeth corff llywodraethu arferol gyda phob rhanddeiliad yn cael eu cynrychioli, er bod mwy o hyblygrwydd o ran cyfraniadau cynrychiolaeth pob categori o lywodraethwr. Golyga hyn y gall corff llywodraethu ffederasiwn ddewis cyfansoddiad ac aelodaeth sy'n gweddu i'w hamgylchiadau penodol cyn belled ag y bônt yn bodloni'r isafswm (15) a'r uchafswm (27) o lywodraethwyr a nodir yn y rheoliadau.

Bydd ysgolion mewn ffederasiwn yn cynnal eu cyllideb ddirprwyedig eu hunain, eu henw, eu cymeriad, gwisg ysgol ac ethos, a byddant yn gallu ymchwilio i'r manteision o rannu adnoddau megis cyfleusterau, TG, staff, adeiladau ysgol ac ati. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw benderfyniad i ffedereiddio yn trechu'r angen i'r ALL ymyrryd neu weithredu ar faterion gwella ysgol neu faterion trefniadaeth ysgolion lle bo'n briodol.

Gellid diffinio prif egwyddorion dull ffedereiddio fel a ganlyn:

- Bydd un corff llywodraethu fydd â goruchwyliaeth strategol dros bob ysgol yn y ffederasiwn;
- Bydd bob ysgol yn cadw ei henw, ei categori, ei chyllideb, ei staff ac yn dal i fod o fewn ei chymuned;
- Bydd gan bob ysgol ei harchwiliad Estyn ei hun, fodd bynnag mae'r rhain yn cael eu cydlynu fwyfwy i ddigwydd ar yr un pryd i bob ysgol yn y ffederasiwn i leihau unrhyw straen ac unrhyw darfu;
- Gall corff llywodraethu ffederasiwn ddefnyddio adnoddau a staff ledled y ffederasiwn i wella amcanion addysgol bob disgybl, er bod rhaid cadw llwybr archwilio;
- Cynhyrchir cyfrifon ar wahân i bob ysgol yn y ffederasiwn;
- Ni all corff llywodraethu ffederasiwn ofyn i staff presennol weithio ymhob ysgol, ond gallent negodi gydag undebau staff ysgolion i weld a fydd modd creu contractau hyblyg;
- Gellid penodi aelodau staff newydd i weithio ledled yr ysgolion yn y ffederasiwn.



5 Y Broses Ymgynghori a'r Amserlen

Mae **Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014** yn amlinellu'r gofyniad statudol i geisio barn rhanddeiliaid ar gynigion ffedereiddio. Felly, mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y cyrff llywodraethu a'r ALL i ymgynghori â'r rhanddeiliaid priodol.

At y diben hwn, diffinnir rhanddeiliaid priodol fel a ganlyn:

- Staff y ddwy ysgol;
- Rhieni, gofalywyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol;
- Y disgyblion sy'n mynd i'r ddwy ysgol (drwy law'r ddau Gyngor Ysgol);
- Undebau staff addysgu a staff cymorth yn cynrychioli athrawon a staff y ddwy ysgol;
- Aelodau Ward lleol y ddwy ysgol;
- Penaethiaid bob ysgol yn ardaloedd clwstwr Llanwern a Llyswyry;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru;
- Estyn

Bydd y cynnig a'r ddogfen ymgynghori'n cael eu cyhoeddi ar wefan Ysgol Gynradd Eveswell, gwefan Ysgol Gynradd Somerton a gwefan Cyngor Dinas Casnewydd. Bydd copïau caled ar gael i'w gweld ar bob adeg resymol yn Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ddydd Llun 3 Mehefin 2019, a bydd yn dod i ben am hanner nos, nos Sul 14 Gorffennaf 2019. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gellir mynegi barn yn ysgrifenedig at gyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol neu i'r ALL yn y cyfeiriadau canlynol:

- **Corff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell**

Chepstow Road

Casnewydd, NP19 8GX

- **Corff llywodraethu Ysgol Gynradd Somerton**

Hawthorne Fosse

Casnewydd, NP19 9AB

- **Prif Swyddog Addysg**

Ystafell 425w

Y Ganolfan Ddinesig

Casnewydd, NP20 4UR

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad yn cael ei baratoi fydd yn amlinellu unrhyw sylwadau a dderbynnir. Ar ddechrau Tymor yr Hydref 2019, bydd pob corff llywodraethu'n penderfynu a ydynt yn awyddus i fwrw ymlaen â'r cynnig i gael cymeradwyaeth ffurfiol Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd.

Defnyddir gweddill Tymor yr Hydref 2019 i ddatblygu Offeryn Llywodraeth (dogfen gyfreithiol sy'n cofnodi cyfansoddiad corff llywodraethu) ar gyfer yr un corff llywodraethu, ac i ethol a phenodi llywodraethwyr fel sy'n briodol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y ffederasiwn.

Bydd y ffederasiwn yn cael ei sefydlu'n ffurfiol ac yn weithredol o 1 Ionawr 2020, pan fydd cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol unigol yn cael eu dirymu.



6 Trefniadau Derbyn

Ni fydd y cynnig hwn yn newid trefniadau derbyn unrhyw ysgol, a bydd yr ALI yn dal i fod yn Awdurdod Derbyn ar gyfer y ddwy ysgol.

Bydd angen i rieni ymgeisio am le i'w plentyn yn yr ysgol o'u dewis, nid yn y ffederasiwn, gan y bydd y ddwy ysgol yn dal i weithredu fel sefydliad ar wahân ac unigryw.

Pan fo cais a gyflwynir i un o'r ddwy ysgol yn aflwyddiannus, ni fydd yr ysgol arall yn awtomatig yn ystyried y cais oni bai bod y rhieni wedi nodi hyn yn benodol wrth lenwi'r ffurflen gais.

7 Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu

Mae aelodaeth corff llywodraethu ffederasiwn ysgolion bron yn union yr un peth ag aelodaeth corff llywodraethu arferol gyda phob rhanddeiliad yn cael eu cynrychioli, er bod mwy o hyblygrwydd o ran cyfraniadau cynrychiolaeth pob categori o lywodraethwr. Golyga hyn y gall corff llywodraethu ffederasiwn ddewis cyfansoddiad ac aelodaeth sy'n gweddu i'w hamgylchiadau penodol cyn belled ag y bônt yn bodloni'r isafswm (15) a'r uchafswm (27) o lywodraethwyr a nodir yn y rheoliadau.

Fodd bynnag, noda'r rheoliadau bod:

- O leiaf un, heb fod yn fwy na dau, rhiant-lywodraethwr yn cynrychioli bob ysgol;
- O leiaf un, heb fod yn fwy na dau, athro-lywodraethwr ar gyfer y ffederasiwn;
- O leiaf un, heb fod yn fwy na dau, staff-lywodraethwr ar gyfer y ffederasiwn;
- O leiaf dau, heb fod yn fwy na phedwar, llywodraethwr ALI ar gyfer y ffederasiwn;
- O leiaf dau, heb fod yn fwy na phedwar, llywodraethwr cymunedol ar gyfer y ffederasiwn;
- Pennaeth neu Bennaeth Gweithredol y Ffederasiwn.

Felly, mae'r cyfansoddiad cytunedig ar gyfer corff llywodraethu'r ffederasiwn fel a ganlyn

Math o Lywodraethwr	Nifer
Rhiant	4
Athro	2
Staff	2
Penodwyd gan yr ALI	4
Cymunedol	4
Pennaeth	1
Cyfanswm	17

Gall corff llywodraethu'r ffederasiwn hefyd benodi llywodraethwyr "arsylwi" nad ydynt yn pleidleisio ychwanegol lle bo'n briodol a lle bo angen sgiliau neu brofiad penodol.



8 Manteision a Heriau

Ymhlith y manteision o fod â dull ffederasiwn mae:

- Cysondeb y fethodoleg dysgu ac addysgu yn enwedig traws-gyfnod;
- Llai o ostyngiadau pontio mewn perfformiad disgyblion;
- Symleiddio polisiau a strwythurau;
- Rhannu arfer gorau, deunyddiau paratoi ac adnoddau;
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau disgyblion;
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff;
- Mwy o gyfle ar gyfer datblygiad rheoli canol;
- Gallu dewis strwythur uwch arweinyddiaeth sy'n gweddu i amgylchiadau lleol, yn arwain at recriwtio staff yn haws;
- Cyfleoedd i arwain ysgolion y tu hwnt i un ysgol;
- Cyfleoedd i greu swyddi newydd y mae modd eu rhannu ledled yr ysgolion;
- Cyfleoedd cymdeithasol gwell i ddisgyblion;
- Cyfleoedd i wneud y mwyaf o adnoddau ac arbenigedd proffesiynol a chyflawni effeithlonrwydd ariannol o arbedion maint;
- Adeiladu gwybodaeth, ychwanegu capasiti a chefnogi effeithlonrwydd drwy gynnig arbedion maint ar gyfer cynnal gweithgareddau allweddol;
- Hyrwyddo lles ehangach disgyblion drwy greu potensial i ddod â gwasanaethau bugeiliol, iechyd, gyrfaoedd, ieuenctid ac eraill ynghyd i fodloni pob angen;
- Cefnogi ysgolion sy'n cael trafferth;
- Gall ysgolion â chryfderau gyfrannu at ddysgu eraill;
- Cefnogi gwelliant ysgolion drwy alluogi ysgolion i alw ar adnoddau ysgolion eraill i daclo problemau, rhannu arbenigedd, codi disgygliadau a mynd ar ôl anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion;
- Posibilrwydd o recriwtio llywodraethwyr yn haws gyda llai o swyddi gwag i lywodraethwyr.

Y nodweddion allweddol i wneud hyn yn ffederasiwn llwyddiannus yw:

- Adeiladu ymddiriedaeth rhwng yr ALI, y corff llywodraethu, a chymunedau'r ysgolion;
- Ymrwymiad amser ac adnoddau'r ddwy ysgol;
- Gweledigaeth a rennir a phwrpas cyffredin o'r hyn sydd angen ei wneud i wella cyflawniad a chyrhaeddiad ar bob lefel;
- Hunaniaeth a rennir rhwng y ddwy ysgol e.e. nodau cyffredin ar weithgareddau cwricwlaidd ac allgwricwlaidd.
- Arweinyddiaeth a strwythurau rheoli clir;
- Amser digonol i bob parti fod yn gyfforddus â'r newidiadau arfaethedig;
- Sicrhau bod pob parti'n teimlo'u bod nhw'n bartneriaid cyfartal;
- Synnwyr o berchnogaeth gan y ddwy ysgol;
- Cyfathrebu da gyda rhieni a staff o ran y newidiadau fydd yn cael eu gweithredu o ganlyniad i'r ffederasiwn.

Yn ogystal â'r manteision hyn, does dim dwywaith y bydd y ffederasiwn yn creu ychydig o heriau megis:

- Llwyth gwaith cynyddol i lywodraethwyr ar y dechrau ac yn ystod y flwyddyn gyntaf;
- Posibilrwydd o golli llywodraethwyr profiadol;
- Pryderon cychwynnol ymysg llywodraethwyr, rhieni a staff tra bod y newid yn cael ei ymgorffori.

Fodd bynnag, yn yr achos hwn ni ragwelir y bydd y rhain yn rhwystrau sylweddol o ystyried bod yr ysgolion wedi bod yn cydweithio ers mis Medi 2016. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a thegwch wedi'i gynnal ar gyfer y cynnig hwn, ac mae ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.



9 Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Ffederasiwn?

Mae ffederasiwn yn strwythur llywodraethu cyfreithiol lle bydd rhwng dwy a chwech ysgol yn rhannu corff llywodraethu. Bydd yr ysgolion yn cadw eu hunigolrwydd, eu henw, ethos, cyllideb a gwisg ysgol, ond gallent rannu adnoddau, cyfleusterau ac arfer da.

Pam dylai ysgolion ffedereiddio?

Bydd cydweithio drwy strwythur un corff llywodraethu yn galluogi ysgolion i godi safonau a chynnal darpariaeth addysg leol drwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd a chyfleusterau, ynghyd ag arfer gorau. Bydd un corff llywodraethu hefyd yn cynnig dull effeithiol y mae modd ei ddal i gyfrif fel bod modd i ysgolion uno adnoddau, gan gynnwys staff a chyllidebau, rhyddhau capasiti yn yr uwch dîm rheoli ac ennill arbedion maint ac effeithlonrwydd.

A fydd fy ysgol yn colli ei hunaniaeth mewn Ffederasiwn?

Ni fydd ysgolion mewn ffederasiwn yn colli eu hunaniaeth unigol, er y byddant yn rhannu un corff llywodraethu. Bydd yr ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol ar wahân a bydd ganddynt eu dyraniadau cyllidebol eu hunain ac yn cael arolygiadau Estyn eu hunain. Bydd yr ysgolion hefyd yn aros yn eu cymuned ac yn cadw eu cymeriad, enw, ethos a gwisg ysgol eu hunain. Er y bydd pob ysgol yn derbyn ei chyllideb ei hun y mae'n rhaid iddi fod yn atebol drosti, mae sgôp, drwy'r un corff llywodraethu, i ddefnyddio cyllidebau a rennir ledled yr ysgolion yn y ffederasiwn

Beth yw trefniadau arolygu'r Ysgolion sydd wedi Ffedereiddio?

Bydd Rheoliadau Addysg (Archwiliadau Ysgol) (Cymru) 2006 yn gofyn i Estyn arolygu ysgolion a gynhelir bob saith mlynedd a chreu adroddiad unigol ar gyfer bob ysgol. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i ysgolion y ffederasiwn. Ni all Estyn symud arolygiad ysgol yn hwyrach na chwe mlynedd, ond gall gynnal arolygiadau mewn ffordd sy'n sicrhau bod ysgolion mewn ffederasiwn yn cael eu harchwilio yn yr un tymor. Bydd Estyn yn ystyried ceisiadau gan gorff llywodraethu neu ALL i arolygu ysgolion yn yr un tymor a cheisio sicrhau bod timau arolygu'r ysgolion mewn ffederasiwn yn cynnwys aelodaeth debyg.

Beth sy'n digwydd i staff mewn ffederasiwn?

Mewn ffederasiwn, byddai pob aelod staff yn cael ei gyflogi ar yr un amodau gwasanaeth â nawr, a chan yr un cyflogwr. Yn yr achos hwn, y cyflogwr yw'r ALL, er mai corff llywodraethu'r ffederasiwn sy'n gyfrifol am rai swyddogaethau staffio h.y. anghydfodau staff, galluedd, diswyddo, disgyblu staff a materion diswyddo a phenodiadau. Byddai corff llywodraethu ffederasiwn hefyd yn gallu penodi aelodau staff newydd i weithio ledled bob ysgol mewn ffederasiwn.

All ffederasiwn fod ag un Pennaeth sy'n gyfrifol am bob ysgol yn y ffederasiwn hwnnw?

Gall, a dyma yw'r model dewisol dan y cynnig hwn

Ydy rhiant-lywodraethwyr yn cael eu hethol gan rieni eu hysgol yn unig, neu gan rieni o bob ysgol yn y ffederasiwn?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ysgol fod ag o leiaf un rhiant-lywodraethwr sydd wedi'i ethol gan y rhieni ym mhob ysgol, ond heb fod yn fwy na dau riant-lywodraethwr fesul ysgol. Felly, mae'n rhesymol i nodi unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â faint o riant-lywodraethwyr y dylai bob ysgol gael, dylai rhieni'r ysgol honno'n unig bleidleisio yn yr etholiadau rhiant-lywodraethwyr. Os nad oes unrhyw rieni mewn ysgol benodol yn sefyll mewn etholiad, gall y corff llywodraethu sydd wedi ffedereiddio benodi rhiant i ddisgybl sydd wedi cofrestru yn yr ysgol; neu riant i ddisgybl sydd wedi cofrestru mewn ysgol arall yn y ffederasiwn; neu riant i blentyn oedran ysgol gorfodol fel rhiant-lywodraethwr.



Oes modd rhoi cyfyngiad amser ar ffederasiwn?

Dylid ystyried ffederasiwn yn ymrwymiad hirdymor, ac nid fel opsiwn dros dro i ddatrys problem. Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, mae'r ALI a'r cyrff llywodraethu wedi ystyried yn fanwl y manteision a'r risgiau o sefydlu ffederasiwn mewn perthynas â'r effaith ar gyraeddiadau plant a phobl ifanc. Wedi dweud hynny, ma Rheoliadau Ffederasiwn 2014 yn caniatáu ysgolion unigol i adael ffederasiwn, ac i ffederasiwn gael ei ddirymu

Beth yw'r gwahaniaethau rhwng ffederasiynau ysgol ac uno ysgolion?

Os yw dwy ysgol yn uno, maent yn dal i fod yn agored yn eu cymuned ond maent yn dod yn un safle â sawl ysgol gydag un enw, un corff llywodraethu, un Pennaeth, ethos, cyllideb, cymeriad a gwisg ysgol. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid diswyddo staff, neu y byddai'n rhaid iddynt ail-ymgeisio am swyddi yn yr un ysgol newydd. Gyda ffederasiwn, mae'r ysgolion yn dal i fod yn agored yn eu cymunedau ond maent hefyd yn cadw eu hunaniaeth, enw, ethos, cymeriad, cyllideb a gwisg ysgol. Byddai staff hefyd yn cadw eu swyddi a gallent gael cyfleoedd pellach am ddatblygiad proffesiynol pellach drwy weithio ledled yr ysgolion yn y ffederasiwn.

All ysgolion bennu corff llywodraethu ar y cyd cyn ffedereiddio'n ffurfiol?

Na. Bydd corff llywodraethu'r ysgolion sydd wedi ffedereiddio'n cael ei sefydlu ar ddyddiad dechrau'r ffederasiwn, y mae'n rhaid iddo fod o leiaf 125 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion ffedereiddio. Golyga hyn y bydd rhaid i gyrff llywodraethu'r ysgolion sy'n ffedereiddio fod wedi cynnal etholiadau ar gyfer y llywodraethwyr craidd, h.y. rhieni, athrawon a staff, a bydd yr ALI wedi penodi eu llywodraethwyr ALI. Ar ddyddiad dechrau'r ffederasiwn, gall yr un corff llywodraethu newydd gwrdd a phenodi llywodraethwyr cymunedol.

Allwn ni newid enw'r ysgolion a/neu rhoi'r un enw i bob ysgol yn y ffederasiwn?

Un o brif yrwyr a manteision ffedereiddio yw'r ffaith nad yw ysgolion yn gollu eu hunigoliaeth, enw na hunaniaeth ac yn dal i fod yn sefydliadau ar wahân. Bydd enwau bob ysgol yn y ffederasiwn yn bresennol ar yr offeryn llywodraeth newydd ynghyd ag enw'r ffederasiwn. Rhaid i bob ysgol mewn ffederasiwn gadw eu rhif cyfeirnod unigol a'r gyllideb a gallai ddod yn eithaf cymhleth a dryslyd pe byddai bob ysgol yn dewis newid eu henw a bod ag un enw pan fydd rhaid iddynt gyfrif cyllidebau gwahanol.



Profforma Ymateb i Ymgynghoriad

Sefydlu Ffederasiwn Ysgol yn ymgorffori Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton

Mae eich barn yn bwysig. Dwedwch wrthym beth eich barn am y cynnig drwy lenwi'r ffurflen ymateb a'i dychwelyd i un o'r cyfeiriadau ar waelod y ffurflen. Sylwch y mae'n bosibl y bydd unrhyw sylwadau yr ydych yn eu cyflwyno'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori fydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu ffederasiwn ysgol ffurfiol yn ymgorffori Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton?

Ydw Nac ydw

2. Defnyddiwch y blwch isod i roi unrhyw sylwadau penodol a all fod gennych ar y cynnig:

3. A ydych yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cadarnhaol Negyddol Dim effaith

4. Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu gweithredu i leihau neu ddileu hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?

5. A ydych yn credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ydw Nac ydw



Dewiswch eich grŵp Ethnig			
Gwyn Prydeinig		Asiaidd-Bangladeshaid	
Gwyn Gwyddelig		Asiaidd-Indiaidd	
Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): _____		Asiaidd-Pacistaidd	
Sipsi neu Deithiwr o Iwerddon		Cefndir Asiaidd arall	
Gwyn ac Asiaidd		Du Caribiaidd	
Gwyn a Du Affricanaidd		Du Affricanaidd	
Gwyn a Du Caribiaidd		Unrhyw gefndir Du arall	
Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): _____		Arabaidd	
Asiaidd-Bangladeshaid		Tsieinaidd	
Asiaidd-Indiaidd		Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch): _____	
Asiaidd-Pacistaidd		Gwell gennyf beidio â dweud	

Y Gymraeg

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?

Ydw		Nac ydw		Gwell gennyf beidio â dweud
-----	--	---------	--	-----------------------------

Cyfrifoldebau gofalu

Ydych chi'n gofalu am blant oed ysgol?

Ydw		Nac ydw		Gwell gennyf beidio â dweud
-----	--	---------	--	-----------------------------

Ydych chi'n gofalu am blant iau nag oed ysgol?

Ydw		Nac ydw		Gwell gennyf beidio â dweud
-----	--	---------	--	-----------------------------

Ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn hŷn nag oed ysgol?

Ydw		Nac ydw		Gwell gennyf beidio â dweud
-----	--	---------	--	-----------------------------

Enw mewn llythrennau bras: _____ Categori ymatebwr (e.e. rhiant): _____

Os ydych yn rhiant, nodwch pa ysgol(ion) mae eich plant/plentyn yn ei/u mynychu: _____

Cyfeiriad: _____

Cod post: _____ E-bost: _____ Ffôn: _____

Wedi i chi gwblhau'r uchod, dychwelwch at un o'r cyfeiriadau canlynol neu e-bostiwch eich ymateb i **school.reorg@newport.gov.uk**: Ysgol Gynradd Eveswell, Chepstow Road, Casnewydd, NP19 8GX neu Ysgol Gynradd Somerton, Hawthorne Fosse, Casnewydd, NP19 9AB, neu Cyngor Dinas Casnewydd (Gwasanaeth Addysg), Ystafell 425w, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ymateb yw canol nos, Sul 14 Gorffennaf 2019.

